



Nodyn cyfarfod

Enw'r prosiect	Morgan and Mona Offshore Wind Farms
Cyfeirnod y ffeil	EN010124/ EN010134
Statws	Terfynol
Awdur	Yr Arolygiaeth Gynllunio
Dyddiad	5 Ebrill 2022
Cyfarfod gyda	BP/ EnBW
Lleoliad	Cyfarfod Microsoft Teams
Amcanion y cyfarfod	Cyfarfod diweddariad ar y prosiect
Dosbarthiad	Yr holl fynychwyr

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd a chyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008 (PA2008). Ni fyddai unrhyw gyngor a roddwyd o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai ymgeiswyr (neu eraill) ddibynnu arno.

Diweddariadau Cyffredinol ar y Prosiect

Rhoddyd statws cynigydd a ffefrir i BP ac EnBW ar ddwy les ym Môr Iwerddon fel rhan o brydlesu cylch 4 Ffermydd Gwynt Alltraeth Ystad y Goron, ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona a Fferm Wynt Alltraeth Morgan. Fferm Wynt Alltraeth Mona yw'r prosiect mwyaf deheuol, ac mae bron yn gyfan gwbl o fewn dyfroedd Cymru; a Fferm Wynt Alltraeth Morgan yw'r mwyaf gogleddol, ac mae'n eistedd yn gyfan gwbl o fewn dyfroedd Lloegr. Cysyniad y datblygiad sydd wedi'i gynllunio yw dwy fferm wynt alltraeth â gwaelodion gosod, ill dwy â chapasiti hyd at 1.5GW. Roedd ansicrwydd ynghylch y cysylltiad grid ac roedd yr Ymgeisydd yn aros am allbynnau terfynol o'r adolygiad o'r Dyluniad Rhwydwaith Cyfannol (HND), a fyddai'n amlinellu opsiynau ar gyfer naill ai cysylltiadau cydgysylltiedig neu gysylltiadau rheiddiol. Disgwylir y bydd canlyniad y Dyluniad Rhwydwaith Cyfannol yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2022. Mae achosion sylfaenol wedi'u nodi ar gyfer y ddau opsiwn. Roedd yr holl opsiynau cysylltu â'r grid a gyflwynwyd gan y Grid Cenedlaethol fwy neu lai yn yr un ardaloedd daearyddol ond mae natur a chymhlethdod y cysylltiadau hynny yn ansicr. Mae ffiniau cwmpasu wedi'u nodi gan ystyried y gofyniad i lwybro o amgylch unrhyw rwystrau amgylcheddol alltraeth, fel seilwaith, agregau a ffermydd gwynt alltraeth eraill.

Un rhwystr allweddol ar gyfer elfennau ar y tir oedd y lleoliadau tirlenwi. Roedd opsiynau daearyddol ar wahân wedi'u dynodi ar gyfer Ffermydd Gwynt Alltraeth Mona a Morgan. Cynghorodd yr Ymgeisydd fod canlyniad yr adolygiad o'r Dyluniad Rhwydwaith Cyfannol yn benderfyniad i'r Grid Cenedlaethol/Ofgem. Byddai'r Ymgeisydd yn amlinellu'r achos dros ystyried y dewisiadau amgen ar sail nodi llwybrau glanio, ar y tir ac alltraeth, sydd o fewn eu rheolaeth. Roedd yr Ymgeisydd yn

gwybod am ystyriaeth y Grid Cenedlaethol o ddewisiadau amgen ar gyfer pob opsiwn, a bydd yn ceisio cael tystiolaeth ategol gan y Grid Cenedlaethol.

Roedd y model cyflawni ar gyfer cysylltu â'r grid yn parhau heb ei benderfynu.

Cyflwyniadau Cwmpasu AEA

Disgwyliwyd cael cais am Farn Gwmpasu AEA ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona ar 20 Ebrill 2022, a Fferm Wynt Alltraeth Morgan ar 26 Ebrill 2022, gan gymryd ymagwedd trefnu am yn ail rhwng y ddau brosiect, fel y trafodwyd yn flaenorol. Fodd bynnag, mae'r dyddiad hwn yn ddarostyngedig i'r penderfyniad gan y Grid Cenedlaethol ac mae'r Ymgeisydd yn dal i gadarnhau gyda rhanddeiliaid perthnasol nad oes unrhyw gyfyngiadau cyfrinachedd sy'n atal cyflwyno. Cynghorodd yr Arolygiaeth ei bod yn agored i drafod yr ymagwedd trefnu am yn ail hon ymhellach os oedd yn achosi anawsterau i'r Ymgeisydd, ond roedd yn bwysig ystyried effaith dau gais cwmpasu ar wahân ar ymgylgoreion, a'r angen i wahaniaethu rhwng ymatebion ar gyfer pob prosiect.

Byddai strwythur pedair rhan i'r cwmpasu:

- Rhan 1 – Cyflwyniadau, i gynnwys methodoleg, ymagwedd at Asesiadau o Effeithiau Amgylcheddol (AEA) ac asesiadau cronol.
- Rhan 2 – Asedau Cynhyrchu, i gynnwys pynciau fel newid hinsawdd, tirweddau a morweddau. Byddai croesgyfeiriadau'n cael eu darparu lle mae achosion o orgyffwrdd yn digwydd.
- Rhan 3 – Asedau trosglwyddo, gan gynnwys asedau ar y tir ac asedau alltraeth ar gyfer y prosiectau.
- Rhan 4 – Atodiadau, gan gynnwys asesiad trawsffiniol ac asesiad o'r gyfarwyddeb fframwaith dŵr.

Cynghorwyd yr Ymgeisydd gan yr Arolygiaeth i fod yn ystyriol o faint y ddogfen, gyda meintiau ffeiliau o 50MB neu lai yn haws i'r holl bartion eu cyrchu. Hefyd, dylai'r Ymgeisydd fod yn ystyriol o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), gan y gallai gwaith golygu'r Arolygiaeth gynyddu maint y ffeil. Os oedd yr Ymgeisydd yn bwriadu cyflwyno drwy safle rhannu ffeiliau, dylid anfon dolen brawf at yr Arolygiaeth cyn cyflwyno i sicrhau bod mynediad yn bosibl. Hefyd, tynnodd yr Arolygiaeth sylw at [Nodyn Cyngor 7](#), a'r gofyniad i gyflwyno ffeil siâp o leiaf 10 niwrnod cyn cais cwmpasu. Cynghorwyd cyflwyno ffeiliau siâp yn gynharach, os oes modd, oherwydd bod cyfnod gwyliau'r Pasg ar ddod.

Roedd ceisiadau cwmpasu'n cael eu drafftio ar gysylltiadau grid rheiddiol sengl, felly gallai unrhyw ganlyniad arall o'r adolygiad o'r Dyluniad Rhwydwaith Cyfannol oedi cyflwyno. Mae'r opsiwn cydgysylltiedig yn cynnwys yr un pwyntiau diddordeb â'r rheiddiol ar gyfer y ddau brosiect, ond gallai fod yn ofynnol gwneud newidiadau yn sgil gofynion posibl am gydweithredu.

Nid oedd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ar lefel cynllun Ystad y Goron (TCE) wedi'i gwblhau eto. Roedd yr Ymgeisydd wedi rhannu llinellau amser cwmpasu gydag Ystad y Goron ac roedd yn hyderus ei fod wedi bodloni gofynion Ystad y Goron.

Diweddariad ar drafodaethau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru

Roedd yr Ymgeisydd wrthi'n trafod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i bennu p'un a ellid tybio Trwydded Forol ar gyfer asedau cynhyrchu Fferm Wynt Alltraeth Mona o dan y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, ac i ddeall sut oedd y Drwydded Forol Dybiedig yn rhyngweithio â phroses y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Byddai'r cwmpasu yn digwydd ar y sail y gellid tybio Trwydded Forol o dan y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu ar gyfer asedau cynhyrchu Fferm Wynt Alltraeth Mona. Eglurodd yr Ymgeisydd fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi annog yr Ymgeisydd i barhau â'i gais am gwmpasu AEA, a byddai

ymateb llawn gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei ddarparu, maes o law. Ar hyn o bryd, mae'r Adroddiad Cwmpasu drafft yn cyfeirio at wneud cais am Drwydded Forol Dybiedig ar gyfer asedau cebl/trosglwyddo ond nid asedau cynhyrchu.

Mae awdurdod cyfreithiol gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ohirio gwneud penderfyniad ar ddigonolrwydd AEA ar gyfer Trwydded Forol i gorff arall (ymagwedd a fabwysiadwyd ar gyfer Gorsaf Ynni Niwclear Wylfa Newydd a Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr). Roedd hyn yn cael ei drafod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yng nghyd-destun unioni prosesau'r Drwydded Forol gyda phenderfyniad y Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Roedd yr Ymgeisydd yn disgwyl Datganiad Amgylcheddol unigol i gefnogi'r ceisiadau am Drwydded Forol a Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Cynghorodd yr Arolygiaeth, os oedd Trwydded Forol ar wahân yn mynd i fod yn ofynnol yn lle Trwydded Forol Dybiedig, byddai angen i'r Datganiad Amgylcheddol fod yn glir ynglŷn â pherthnasedd gwybodaeth yn ymwneud â phob proses. Gofynnodd yr Arolygiaeth am ddiweddariad ar ôl i Cyfoeth Naturiol Cymru wneud ei benderfyniad, a phwysleisiodd y byddai angen i Cyfoeth Naturiol Cymru fodloni ei hun fod y penderfyniad AEA yn ddigonol, ac na allai'r Arolygiaeth fynd y tu hwnt i archwilio'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu. Cynghorodd yr Ymgeisydd fod yna siawns uchel y byddai terfyn yr arae yn cael ei fireinio ar ôl cwmpasu, a gallai hynny effeithio ar ofynion y Drwydded Forol.

Diweddariad ar ymgysylltu â rhanddeiliaid

Ymgysylltwyd ag Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI) lletya posibl ar sail pwyntiau diddordeb cyfredol rhwng Tachwedd 2021 ac Ionawr 2022. Darparwyd eglurhad lefel uchel i ACLlau ynglŷn â'r broses dewis llwybr hyd yma, a chynlluniau eang ond dangosol i hwyluso adborth ar feysydd pryder allweddol posibl. Coladwyd adborth ond nodwyd nad oedd nifer o ACLlau wedi gallu ymgysylltu (roedd Cyngor Sir Ddinbych yn un o'r rhain, sef yr awdurdod lletya posibl ar gyfer Mona).

Ystyrir bod morgludiant a mordwyo yn risg gydsynio arwyddocaol bosibl i'r ddau brosiect, a sefydlwyd Fforwm Ymgysylltu Mordwyo Morol i edrych ar y ffordd orau o liniau'r risgiau hynny. Mae'r fforwm yn cyfarfod yn gyson, ac mae map trywydd ar gyfer rheoli'r broses wedi'i rannu gydag Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA) a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS). Roedd pedwar llwybr/cwmni fferi gwahanol y byddai'r prosiectau yn rhyngweithio â nhw, ac mae trafodaethau'r fforwm hyd yma yn cynnwys efelychiadau pont er mwyn deall goblygiadau diogelwch posibl. Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag MCA, BEIS, Siambr Morgludiant y DU a chwmnïau Fferi. Roedd yr ymgynghori'n parhau i fynd rhagddo.

Roedd cyfarfod o'r Grŵp Llywio Cynlluniau Tystiolaeth yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Natural England, y Sefydliad Rheoli Morol (MMO) a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) wedi'i gynnal ar ddiwedd 2021, a sefydlwyd grwpiau pynciau arbenigol (ETGs) o ganlyniad i'r rhain. Roedd yr ETGs yn cynnwys ecoleg fenthig, pysgod a physgod cregyn a phrosesau ffisegol, mamaliaid morol ac adareg, a byddai'n trafod arolygon, prosesau asesu, methodoleg a chwmpas. Byddai ETGs ecoleg ar y tir yn cael eu sefydlu ar ôl y Pasg 2022 i drafod cwmpas arolygon a'r data a oedd ar gael. Cydnabu'r Ymgeisydd ddefnyddioldeb ymgysylltiad yr Arolygiaeth i gefnogi Grwpiau Llywio Cynlluniau Tystiolaeth a grwpiau pynciau arbenigol.

Camau nesaf

Roedd y cyflwyniad cwmpasu wedi'i drefnu ar gyfer Ebrill 2022, ac yn dilyn hyn byddai rhywfaint o wrthbwyso rhwng y llinellau amser ar gyfer pob prosiect.

- PEIR: Fferm Wynt Alltraeth Mona yn Nhachwedd 2022, Fferm Wynt Alltraeth Morgan yn Ionawr 2023

- Cyflwyno'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu: Fferm Wynt Alltraeth Mona yn Chwartel 4 2023, Fferm Wynt Alltraeth Morgan yn Chwartel 1 2024

Unrhyw fusnes arall

Cadarnhaodd yr Arolygiaeth ei bod yn ymwybodol o'r llinellau amser ar gyfer adolygu'r Dyluniad Rhwydwaith Cyfannol ac eglurodd mai diben y fenter Prosiect Speed yw delio â materion strategol a lleihau risgiau yn gynnar yn y broses gydsynio. Byddai'r rhain yn cael eu hystyried ar lefel strategol yn hytrach na lefel prosiect mewn perthynas â sut gellid rhoi cydsyniad i brosiectau yn y ffordd fwyaf effeithlon.

Holodd yr Ymgeisydd ynglŷn ag allgymorth posibl i ACLlau sy'n cael anhawster ymgysylltu â'r broses cyn ymgeisio. Byddai'r Arolygiaeth yn gwirio p'un a fyddai ACLlau yng Nghymru yn gallu cynnig am adnoddau ychwanegol yn ymwneud â phrosiectau NSIP a byddai'n ystyried effeithiau prosiectau eraill ar gapasiti ACLlau hysbys.

Cytunodd y ddau barti y byddai cyfarfod ar y cyd gydag agendâu rhanedig ar gyfer pob prosiect (45 munud fesul prosiect) yn strwythur defnyddiol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol. Byddai angen i unrhyw gyngor a roddir gan yr Arolygiaeth fod yn glir o ran pa brosiect oedd dan sylw.

Byddai'r Ymgeisydd yn cysylltu â'r Arolygiaeth i drefnu'r cyfarfod nesaf pan fyddai'r amserlenni ar gyfer Cwmpasu a chanlyniadau adolygu'r Dyluniad Rhwydwaith Cyfannol yn fwy sicr.